

---

# Defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol: Canllaw ymarferol i fusnesau ac elusennau



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

## Using the Welsh language on social media: A practical guide for businesses and charities

---



# Cefndir

## Background

1

Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a sefydlodd fframwaith newydd ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg, ar ffurf safonau'r Gymraeg.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn sefydliad annibynnol a grëwyd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gall y Comisiynydd osod safonau ar sefydliadau penodol ond mae hefyd yn cynnig cyngor a chanllawiau i bob sefydliad p'un a oes ganddo ofyniad statudol i ddefnyddio'r Gymraeg ai peidio.

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 gave the Welsh language official status in Wales and established a new framework for imposing duties on organisations to use the Welsh language, in the form of Welsh language standards.

The Welsh Language Commissioner is an independent body established to promote and facilitate use of the Welsh language. The Commissioner can impose standards on specific organisations but also offers advice and guidance to all organisations whether or not they have a statutory requirement to use the Welsh language.

# Cynnwys

2

<b>1</b>	Rhagair	4
<b>2</b>	Yr achos busnes dros ddefnyddio mwy o Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol	6
	Busnesau mawr a bach	8
	Mudiadau a sefydliadau celfyddydol	10
	Cyrrff chwaraeon	12
	Elusennau o bob maint	14
	Astudiaeth achos	18
<b>3</b>	Cymorth a chyngor ymarferol	20

## Nodyn pwysig

Yn unol ag adran 4 (2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r canllaw hwn yn cynnig cyngor ar arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol. Nid yw'r canllaw yn eich rhwymo'n gyfreithiol, ond mae'r Comisiynydd yn annog busnesau ac elusennau i ystyried yr arferion gorau a gyflwynir yn y ddogfen wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae dyletswydd statudol ar nifer o sefydliadau i gyfathrebu a hyrwyddo yn unol â'r gyfundrefn safonau sydd wedi ei sefydlu dan y Mesur. Nid yw'r canllaw hwn yn cynnig cyngor cyfreithiol y gallid dibynnu arno nac yn god ymarfer statudol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, felly nid oes angen cyfeirio ato wrth ystyried dehongliad y safonau.

# Contents

3

<b>1</b>	Foreword	5
<b>2</b>	The business case for using more Welsh on social media	7
	Small and large businesses	9
	Arts movements and organisations	11
	Sporting organisations	13
	Charities of all sizes	15
	Case study	19
<b>3</b>	Practical support and advice	21

## Important note

In accordance with section 4 (2) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, this guide offers advice on best practice on the use of Welsh on social media. The guide is not legally binding, but the Commissioner encourages businesses and charities to consider the best practice presented in the document when using Welsh on social media.

Many organisations have a statutory duty to communicate and promote in accordance with the standards system established under the Measure. This guide does not offer legal advice that can be relied upon and is not a statutory code of practice for the use of Welsh, so it is not necessary to refer to it when considering the interpretation of the standards.

# 1 Rhagair

4

1  
'Y Gymraeg yn y fasged siopa:  
agweddau cwsmeriaid at  
ddefnydd o'r Gymraeg gan  
archfarchnadoedd'

'Buddion Marchnata Dwyieithog  
gan Elusennau yng Nghymru'

Mae ymchwil yn dangos yn glir bod y cyhoedd yn gwerthfawrogi gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan fusnesau ac elusennau. Mae hyn yn arbennig o wir o ran marchnata a chysylltu â nhw'n uniongyrchol.<sup>1</sup>


Gyda'r cyfryngau cymdeithasol yn gyrru mwy o draffig at wefannau penodol na Google erbyn hyn, mae'n amlwg eu bod yn ffordd bwerys o farchnata, rhwydweithio a hysbysebu. Maent yn blatfformau i gyrraedd cynulleidfa eang yn gyflym, syml ac effeithiol, ac yn galluogi sefydliadau i dargedu cynulleidfaoedd penodol. Eisoed, mae nifer o gwmnïau, sefydliadau ac elusennau wedi gweld y budd o ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol wrth ddenu a chadw cwsmeriaid.

Bwriad y canllaw hwn yw rhoi arweiniad i elusennau a busnesau ar sut i fynd ati i ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd y canllaw yn cyflwyno:

- buddion defnyddio'r Gymraeg i'ch busnes neu elusen
- astudiaethau achos ac arferion da ac yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol ar gyfer defnyddio'r iaith.

Wrth i chi ystyried y canllaw ein nod yw eich bod yn magu hyder i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth hybu eich gwasanaethau, ymgyrchoedd neu gynnyrch ar y cyfryngau cymdeithasol. Trwy wneud hyn, byddwch yn cyrraedd ac yn ymwneud yn fwy effeithiol â chynulleidfa ddwyieithog ehangach ledled Cymru a thu hwnt.



Meri Huws  
Comisiynydd y Gymraeg

# 1 Foreword

5

1  
'Welsh in the shopping basket:  
customer attitudes to the use  
of Welsh by supermarkets'

'The Benefits of Bilingual  
Marketing by Charities in Wales'

Research clearly shows that the public values the provision of Welsh medium services by businesses and charities. This is especially true in terms of marketing and making direct contact.<sup>1</sup>


With social media now directing more traffic to specific websites than Google, it is clear that these platforms are powerful marketing, networking and advertising tools. They can reach a wide audience quickly, simply and effectively, and enable organisations to target specific audiences. A number of companies, organisations and charities have already seen the benefit of using the Welsh language on social media as a way of attracting and retaining customers.

The aim of this guide is to provide guidance to charities and businesses on using the Welsh language on social media.

The guide will present:

- the benefits of using the Welsh language to your business or charity
- case studies and good practice and provide practical support and advice on using the language.

Our hope is that, by considering the guidance provided, you develop the confidence to use more Welsh when promoting your services, campaigns or products on social media. In doing so, you will reach and engage more effectively with a wider bilingual audience across Wales and beyond.



Meri Huws  
Welsh Language Commissioner

## 2

# Yr achos busnes dros ddefnyddio mwy o Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol

6

Mae busnesau ac elusennau yn deall pwysigrwydd datblygu perthynas â chwsmeriaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod ganddynt ffydd yn y gwasanaeth, cynnyrch neu'r profiad sy'n cael ei gynnig. Mae nifer fawr ohonynt yn sylweddoli bod defnyddio'r Gymraeg yn cyfrannu at hyn:



Mae'r Gymraeg yn rhoi arf ychwanegol i ni wrth greu cynnwys ar lwyfannau cymdeithasol – **pan fydd pobl yn saethu drwy eu ffrwd, yn aml iawn, mae cynnwys Cymraeg yn cael mwy o ymgysylltiadau na chynnwys Saesneg** - Creision Jones o Gymru

Gall defnyddio'r Gymraeg fod yn ffordd o gynyddu gwerthiant, ennyn mwy o gyfraniadau a chefnogaeth gan y cyhoedd ar draws pob math o sectorau.

### Mae defnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn:

- cynnig cyfleoedd i werthu a hyrwyddo mewn marchnadoedd newydd
- gwneud i chi sefyll allan
- agor y drws i gynulleidfa ehangach
- galluogi chi i dargedu cynulleidfa benodol
- cryfhau a chreu perthynas gyda chymunedau, ysgolion a chefnogwyr ayyb
- yn ffordd o gynyddu cyfraniadau gydag ymgyrchoedd codi arian
- cryfhau hawliau defnyddwyr

## 2

# The business case for using more Welsh on social media

7

Businesses and charities understand the importance of developing relationships with their customers or service users in order to ensure that they have trust in the service, product or experience offered. Many realise that using the Welsh language contributes to this:



The Welsh language provides us with an extra tool when creating content on social platforms – **when people run through their feed, very often, Welsh language content gets more hits than English language content**

Jones Crisps - The Welsh Choice

Using the Welsh language can be a way of increasing sales and ensuring more participation and support from the public across all sectors.

### Using the Welsh language on social media:

- provides opportunities to sell and undertake promotional activities in new markets
- makes you stand out
- opens the door to a wider audience
- enables you to target a specific audience
- strengthens and creates relationships with communities, schools and supporters etc
- is a way of increasing donations via fundraising campaigns
- strengthens the rights of users

'Y Gymraeg yn y fased siopa: agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd'  
[comisiynyddygybraeg.cymru/ymchwilhybu](http://comisiynyddygybraeg.cymru/ymchwilhybu)

Mae'r adrannau canlynol yn ystyried yr achos busnes ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau ac elusennau:

### Busnesau mawr a bach

Mae tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal sawl darn o ymchwil i agweddau o'r Gymraeg yn y trydydd sector a'r sector preifat.

Dangosodd yr ymchwil 'Y Gymraeg yn y fased siopa: agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd' bod defnyddio'r Gymraeg yn ffordd effeithiol o ddatblygu a chynnal perthynas â chwsmeriaid. Neges glir yn deillio o'r ymchwil oedd bod defnyddio'r Gymraeg yn fantais, nid yn unig yn fasnachol ond yn bwynt gwerthu unigryw (USP) i fusnesau. Mae'n adnodd i ddenu cwsmeriaid ac i greu perthynas â nhw.

- dangosa'r canlyniadau yma bod defnyddio'r Gymraeg yn ffordd o glosio at gwsmeriaid ar draws Cymru
- trwy chwarae rôl ganolog yn eu cymunedau, mae modd i fusnesau ennyn teyrngarwch a chefnogaeth hir dymor eu cwsmeriaid

**Rwy'n hoffi gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan archfarchnadoedd yng Nghymru**

I like seeing the Welsh language being used by supermarkets in Wales

Anghytuno Disagree 23%



Cytuno Agree 68%

**Mae defnyddio'r Gymraeg yn dangos bod yr archfarchnad yn cefnogi'r gymuned leol**

Using the Welsh language shows that the supermarket is supporting the local community

Anghytuno Disagree 20%



Cytuno Agree 74%

The following sections consider the business case for different types of businesses and charities:

### Small and large businesses

The Welsh Language Commissioner's Promotion team has undertaken several pieces of research into aspects of the Welsh language in the private and third sectors.

The research 'Welsh in the shopping basket: customer attitudes to the use of Welsh by supermarkets' showed that using Welsh is an effective way of developing and maintaining relationships with customers. A clear message from this research was that businesses benefit from using the Welsh language, not only commercially but in terms of being a unique selling point (USP). It can be used to attract customers and to develop relationships with them.


- these results show that using the Welsh language is a way of developing closer relationships with customers across Wales
- by playing a key role in their communities, businesses can gain loyalty and long term support from their customers

'Welsh in the shopping basket: customer attitudes to the use of Welsh by supermarkets'  
[welshlanguagecommissioner.wales/hyburesearch](http://welshlanguagecommissioner.wales/hyburesearch)

**Mae archfarchnadoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn dangos parch tuag at ddiwylliant Cymraeg**

Supermarkets that use the Welsh language are showing respect towards Welsh culture

Anghytuno Disagree 12%



Cytuno Agree 83%

**Mae defnyddio peth Cymraeg ar becynnau yn helpu archfarchnadoedd i ddangos eu bod yn cefnogi cynhyrchwyr lleol**

Using some Welsh on product packaging helps supermarkets demonstrate support for local producers

Anghytuno Disagree 17%



Cytuno Agree 78%


Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn blatfform hynod o effeithiol i fusnesau wrth farchnata gwasanaethau neu gynnyrch, gan fod modd cyrraedd cynulleidfa eang heb gyllideb. Mae defnyddio'r Gymraeg yn gallu:

- denu cwsmeriaid newydd a'u gwneud yn fwy ffyddlon
- gwella a chryfhau brand, delwedd a gwerthoedd
- dangos parch tuag at ddiwylliant a chymunedau ar draws Cymru

Yn sicr dyma brofiad yr artist Rhiannon Roberts, sy'n trydar yn gyson yn y ddwy iaith:

“

Mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i mi pan dwi'n marchnata fy ngwaith dros Twitter a Facebook. Dwi'n teimlo bod y busnes yn tyfu'n gyflymach gan fy mod yn gallu ehangu fy nghynulleidfa drwy farchnata yn ddwyieithog.



#### Mudiadau a sefydliadau celfyddydol

Mae'r rhan fwyaf o bobl erbyn hyn yn troi at y we a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer derbyn y newyddion, gwybodaeth am ddiwyddiadau, gweithdai neu sesiynau; ac felly mae datblygu'r ffordd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar y cyfryngau hyn wedi dod yn gynyddol bwysig.

Nododd Cyngor Celfyddydau Cymru:

“

Mae'r Gymraeg yn adennill tir o ran datblygiadau technolegol. Trwy ddefnyddio'r iaith ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, mae wrthi'n datblygu geirfa fwy llac ac anffurfiol y mae ein pobl ifanc, yn arbennig, yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ei defnyddio o gymharu efallai â Chymraeg yr ystafell ddosbarth.

Mae Facebook yn cefnogi'r broses o feithrin diwylliant cyfryngau cymdeithasol a gweithgaredd hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg, lle gellir dod o hyd i gymunedau o siaradwyr Cymraeg yn hawdd a'u targedu.


Social media provides an extremely effective platform for businesses to market their services or products, enabling them to reach a wide audience without a budget. Using the Welsh language can:

- attract new customers and strengthen their loyalty
- improve and strengthen brands, image and values
- show respect towards Welsh culture and communities

This is certainly the experience of the artist Rhiannon Roberts, who tweets in both languages on a regular basis:

“

Using the Welsh language is very important to me when marketing my work on Twitter and Facebook. I feel that the business is growing quicker as I can expand my audience through bilingual marketing.



#### Arts movements and organisations

Most people now turn to the internet and social media for news and information about events, workshops or sessions. As a result, it is becoming increasingly important to find ways of engaging with audiences through these mediums.

According to the Arts Council of Wales:

“

The Welsh language is gaining ground in terms of technological developments. By using the language on social media platforms, looser and more informal vocabulary is being developed – a vocabulary which our young people, in particular, feel more comfortable using compared perhaps to the Welsh used in the classroom.

Facebook supports the development of a Welsh language social media culture and Welsh language promotional activities which enable communities of Welsh speakers to be easily reached and targeted.

Un sefydliad sy'n gweld budd mawr o ddefnyddio'r Gymraeg yw Galeri, yng Nghaernarfon:

“

Fel menter gymdeithasol sydd wedi ei lleoli yng Nghaernarfon, mae'r Gymraeg yn rhan o'n DNA ni. Mae datblygu ein ffordd o gyfathrebu yn ddigidol ac ar-lein yn allweddol i gyrraedd ac ehangu ein cynulleidfaoedd. Y Gymraeg sy'n dod gyntaf mewn unrhyw gyhoeddiad neu neges, a bydd sgysiau'n parhau yn iaith y defnyddiwr yn dilyn hynny.

#### Cyrrff Chwaraeon

Wrth ddefnyddio'r Gymraeg gall clybiau a chymdeithasau denu aelodau a gwirfoddolwyr newydd, cryfhau cysylltiadau ag ysgolion a'r gymuned leol yn ogystal â chreu ymdeimlad o falchder ac ysbryd tîm.

Dyma sydd gan Dim Rygbi Rhanbarthol y Scarlets i ddweud:

“

Mae'r Gymraeg wastad wedi bod yn rhan annatod o'r Scarlets ac ry'n ni fel rhanbarth yn ymfalchio yn ein dwyieithrwydd. Mae canran helaeth o'n cefnogwyr yn Gymry Cymraeg ac yn cyfathrebu fel teulu, ffrindiau a chydweithwyr yn naturiol yn ddwyieithog fel yr ydyn ni'n ei wneud yn feunyddiol ym Mharc y Scarlets.

Mae marchnata yn ddwyieithog dros y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r cyfle i ni siarad â'n cefnogwyr yn eu mamiaith ond hefyd yn rhoi'r dewis iddynt gyfathrebu gyda ni yn y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud. Mae'r Gymraeg yn ein gwythiennau yma yn y Scarlets ac ry'n ni'n naturiol yn rhoi sylw i'r iaith ar bosteri, arwyddion, y cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddiadau i'r wasg, ein gwefan, ac ar ddiwrnod y gêm.



One organisation that sees the huge benefit of using Welsh is Galeri in Caernarfon:

“

As a social initiative based in Caernarfon, the Welsh language is part of our DNA. Developing our digital and online communication is key to reaching and expanding our audiences. The Welsh language comes first in any post or tweet, and subsequent conversations are held in the user's preferred language.

#### Sporting Organisations

By using the Welsh language, clubs and societies can attract new members and volunteers, strengthen links with schools and the local community and instill a sense of pride and team spirit.

According to the Scarlets Regional Rugby Team:

“

The Welsh language has always been an intrinsic part of the Scarlets and we as a region take great pride in our bilingualism. A large percentage of our supporters are Welsh speakers who interact with family, friends and colleagues in both Welsh and English, as we do on a daily basis at Parc y Scarlets.

Bilingual marketing on social media gives us the opportunity to speak to our supporters in their mother tongue but it also gives them the choice of communicating with us in Welsh if they choose to do so. The Welsh language is in our blood here at the Scarlets and, as a result, it can be seen on posters, signs, social media, press releases, our website, and on the day of the game.






Buddion Marchnata Dwyieithog gan Elusennau yng Nghymru: [comisiynyddygydraeg.cymru/ymchwilhybu](http://comisiynyddygydraeg.cymru/ymchwilhybu)

### Elusennau o bob maint

Gall defnyddio'r Gymraeg fod yn arf pwerus ar gyfer elusennau. Mae'n ffordd o godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd ac yn fodd o gynyddu cefnogaeth a chyfraniadau ariannol yn ogystal â denu gwirfoddolwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg.

Gwelwn ganlyniadau amlwg o'r buddion o farchnata yn ddwyieithog yn dilyn cynnal gwaith ymchwil i 'Buddion Marchnata Dwyieithog gan Elusennau yng Nghymru'.

### A ddylai elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru farchnata yn ddwyieithog?



Dyma rai dyfyniadau gan aelodau'r cyhoedd fel rhan o'r ymchwil:

“ Mae sefydliad sy'n cynhyrchu deunydd yn y Gymraeg yn fwy cynhwysfawr a sensitif i anghenion pobl.

“ Mae dwyieithrwydd yn ehangu pwy sy'n mynd i gefnogi.


The Benefits of Bilingual Marketing by Charities in Wales: [welshlanguagecommissioner.wales/hyburesearch](http://welshlanguagecommissioner.wales/hyburesearch)

### Charities of all sizes

The use of the Welsh language can be a powerful tool for charities. It can be used to raise awareness of campaigns, increase support and donations and attract Welsh speaking volunteers.

Our research 'The Benefits of Bilingual Marketing by Charities in Wales' showed the clear benefits of bilingual marketing.

### Should charities operating in Wales market bilingually?



Here are some quotes from the public as part of the research:

“ An organisation that produces materials in Welsh is more inclusive and sensitive to people's needs.

“ Bilingualism expands on who might support a charity.

Mae'r gallu i rannu negeseuon yn y Gymraeg a'r Saesneg yn sicrhau bod y neges yn gallu cyrraedd cynulleidfa fwy.

Un o'r elusennau sy'n sylweddoli gwerth y Gymraeg yw Barnardo's Cymru.

“

Rydyn ni'n teimlo'n angerddol dros ein hunaniaeth Gymreig ac mae rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, lle bynnag y gallwn ni, wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn allweddol i hynny, gan ein helpu i rannu gwybodaeth am yr hyn a wnawn ym mhob cwr o Gymru.

Cymraeg yw iaith gyntaf llawer o ddefnyddwyr ein gwasanaethau ac mae ein cefnogwyr a'n gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith wir yn gwerthfawrogi ein bod yn defnyddio'r Gymraeg yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn amlwg o'r ffordd maen nhw'n ymgysylltu â ni.



The ability to share messages in Welsh and English ensures that the message can reach a wider audience.

One of the charities that realises the value of the Welsh language is Barnardo's Cymru.

“

We are passionate about our Welsh identity, and giving both Welsh and English equal status wherever we can on social media is key to that, enabling us to share information about what we do across Wales.

Many of our service users speak Welsh as a first language and our Welsh speaking supporters and volunteers truly appreciate the fact that we use Welsh on social media. This is clear from the way in which they engage with us.



## Astudiaeth Achos

### Achub y Plant Cymru

18



### Mae'r Gymraeg yn cryfhau ein hymgyrchoedd

Mae'r cyfryngau cymdeithasol bellach yn rhan ganolog o unrhyw gynllun cyfathrebu ac yn Achub y Plant Cymru, rydym wedi canolbwyntio ar ddau blatfform – Facebook a Twitter. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i brinder amser, gan fod paratoi negeseuon cyson, o ddi-ddordeb yn cymryd amser.

Gwnaethom benderfyniad wrth agor y cyfrifon nad oeddem am fynd lawr y llwybr o gael dau gyfrif ar wahân (un i'r Gymraeg a'r llall i'r Saesneg), gan fynd am yr opsiwn o un cyfrif dwyieithog. Roedd yn bolisi gennym o'r dechrau fod pob neges yn mynd allan yn ddwyieithog a bod cwestiynau yn cael eu hateb yn yr iaith wreiddiol y'i gofynnwyd.

Rhywbeth rydym yn ceisio ei wneud yn fwriadol yw peidio ag anfon yr un neges allan yn y ddwy iaith – byddwn yn ceisio cyfieithu'r ystyr yn hytrach na'r geiriau. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi cael ein canmol am ei wneud a chredaf fod pobl yn gwerthfawrogi nad ydynt yn cael cyfieithiad slafaid.

Rydym yn hollol gyfforddus hefyd yn defnyddio hashnodau rhyngwladol gyda hashnodau mwy penodol i Gymru mewn negeseuon Cymraeg. Cryfhau'r ymgyrch ddylai'r defnydd o'r Gymraeg ei wneud, gan gyflwyno'r iaith i ddefnyddwyr yng Nghymru a thu hwnt.

Heb os, mae'r Gymraeg wedi cyfoethogi ein cyfrifon cymdeithasol ni, a byddwn yn parhau i roi le cyfartal iddi yn ein hymgyrchoedd yng Nghymru.



Mae defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol yn:

- ffordd bwerus o farchnata, rhwydweithio a hysbysebu
- yn gallu targedu cynulleidfaoedd newydd a phenodol
- denu a chadw cwsmeriaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth ac ennyn teyrngarwch
- gwella a chryfhau brand, delwedd a gwerthoedd
- cynyddu cyfraniadau ariannol a lledaenu negeseuon ymgyrchoedd pwysig ymhellach
- gyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff a gwirfoddolwyr

## Case Study

### Save the Children Wales

19



### The Welsh language strengthens our campaigns

Social media now has a central role to play in any communication plan and, at Save the Children Wales, we concentrate on two platforms – Facebook and Twitter. This is mainly as a result of time constraints, as preparing regular messages of interest takes time.

When we launched the accounts, we decided that we weren't going to go down the route of having two separate accounts (one in Welsh and the other in English). Instead, we decided to create one bilingual account. It was our policy from the outset that all messages would be bilingual and that questions would be answered in the language in which they were asked.

We intentionally don't post the same message in both languages – we try to translate the meaning rather than the words. We have been praised for doing this and I believe that people appreciate the fact that they don't get a direct translation.

We are also accustomed to using international hashtags, with more specific hashtags for Wales in Welsh language messages. Using the Welsh language should strengthen campaigns by introducing the language to users in Wales and beyond.

Without doubt, the Welsh language has enriched our social media accounts, and we will continue to give it equal status in our campaigns in Wales.



Using the Welsh language on social media:

- is a powerful marketing, networking and advertising tool
- can target new and specific audiences
- attracts and retains customers or service users and gains their loyalty
- improves and strengthens brands, image and values
- increases donations and ensures that important campaign messages reach a wider audience
- provides an opportunity to develop staff and volunteers' Welsh language skills

### 3

## Cymorth a chyngor ymarferol

### Practical support and advice

20

Recrwtio: ystyried y Gymraeg  
[comisiynyddygydraeg.cymru/  
canllawiauhybu](https://comisiynyddygydraeg.cymru/canllawiauhybu)

Recruitment: Welsh Language  
Considerations  
[welshlanguagecommissioner.  
wales/hybuguidelines](https://welshlanguagecommissioner.wales/hybuguidelines)

Nod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw gweithio tuag at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, sef ceisio sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg gystal â rhai Saesneg. Deallwn y gall hyn fod yn heriol i rai busnesau ac elusennau bach, ond gydag ychydig o ddychymyg a chynllunio creadigol, mae modd gweithio tuag at y nod.

Yn y bennod hon awn ati i gynnis arweiniad ymarferol ynghylch rhai materion sy'n codi wrth gynllunio defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae sawl plattform gwahanol yn bodoli, wrth gwrs, a gellid cymhwyso'r cyngor isod ar gyfer nifer o'r plattformau mwyaf poblogaidd.

#### Cyn dechrau arni...

Mae'n bwysig i bob sefydliad sicrhau bod cynllun cyfryngau cymdeithasol mewn lle er mwyn cynllunio o'r dechrau pa negeseuon fydd yn cael eu rhannu a sicrhau bod negeseuon yn cael eu paratoi yn y ddwy iaith o flaen llaw.

Mae'n werth meddwl pwy fydd â chyfrifoldeb dros greu a chynllunio'r negeseuon. Pa sgiliau ieithyddol sydd gan aelodau staff neu wirfoddolwyr? Bydd ein canllaw 'Recrwtio: ystyried y Gymraeg' o fudd i unrhyw sefydliad wrth gynllunio'r gweithlu.

The aim of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 is to work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language, thereby ensuring that Welsh language services are as good as English language services. We understand that this can be challenging for some small businesses and charities, but with a little imagination and creative planning, it is possible to work towards that aim.

In this chapter, we offer practical guidance on some of the issues which arise when planning the use of Welsh on social media. Of course, numerous platforms exist and the following advice can be applied to many of the most popular ones.

#### Before starting...

It is important that all organisations ensure that they have a social media plan in place in order to plan what messages will be shared from the outset and ensure that they are prepared in advance in both languages.

It is worth considering who will be responsible for creating and planning the messages. What linguistic skills do members of staff or volunteers have? Our guide 'Recruitment: Welsh Language Considerations' will be useful to any organisation in terms of planning its workforce.

21



gydag ychydig o ddychymyg a chynllunio creadigol, mae modd gweithio tuag at y nod.



with a little imagination and creative planning, it is possible to work towards that aim.

## Oes gennych gynllun marchnata yn barod?

Efallai bod angen i chi ail edrych arno a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gynnwys. Mae'n llawer mwy cost effeithiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn unrhyw gynllun marchnata o'r dechrau. Mae'n gyfle hefyd i asesu sgiliau ieithyddol y gweithlu, gan adnabod swyddogion neu wirfoddolwyr fyddai â'r gallu i ddrafftio negeseuon yn ddwyieithog ar gyfer eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

## Beth sydd orau i mi reoli – un cyfrif neu dau?


Mae'n bosibl cael ffrwd dwyieithog, gan gymysgu'r cynnwys Cymraeg a Saesneg. Opsiwn arall yw un ffrwd Cymraeg a'r llall yn Saesneg. Pa bynnag opsiwn sy'n cael ei ddewis, mae'n rhaid ceisio sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yr un fath. Mae angen meddwl yn ymarferol o ran rheoli cyfrifon a beth fyddai'n ymarferol o sicrhau bod y Gymraeg yn cael yr un statws a'r Saesneg. Mae angen cofio wrth gyhoeddi negeseuon ar y ffrydiau, bod angen sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a bod y profiad a'r negeseuon o'r un safon. Dylech sicrhau bod eich proffil yn ddwyieithog os ydych chi'n defnyddio un cyfrif. Petaech yn dewis cyfrif Cymraeg a Saesneg yna sicrhewch eich bod yn cyfeirio at y naill gyfrif a'r llall yn y proffil. Wrth ail-bostio neu anfon neges (ail drydar neu rannu) sicrhewch fod yr iaith yn gyson â iaith y ffrwd a chyfrif.

## Do you already have a marketing plan?

You may need to re-examine it and ensure that you include the Welsh language. It is far more cost-effective to ensure that the Welsh language is included in any marketing plan from the outset. It also provides an opportunity to assess the workforce's linguistic skills and identify officers or volunteers who would be able to draft bilingual messages for your social media accounts.

## Managing one account or two – what's best?

It is possible to have a bilingual feed with a mixture of Welsh and English content. Another option is to have one Welsh language feed and one English language feed. Whichever option you choose, you must try to ensure that both languages are treated equally. You need to think in practical terms about managing accounts and ensuring that both Welsh and English are given equal status. When posting messages on feeds, you must ensure that posts in both languages appear simultaneously and that the experience and messages are of the same standard. If you are using one account, you should ensure that your profile is bilingual. If you choose to have Welsh and English accounts, you should refer to the other account in the profile. When reposting or sending a message (retweeting or sharing), ensure that the language used corresponds to the language of the feed and the account.



## Beth yw'r ffordd orau o greu negeseuon dwyieithog?

Y ffordd fwyaf hwylus a chost effeithiol o ddarparu testunau byrion dwyieithog i'w cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol yw annog swyddogion i ddrafftio'r negeseuon yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Dyma yn ddi-os yw'r ffordd orau o sicrhau nad oes angen dibynnu ar gyfieithu popeth er mwyn cynnig gwasanaethau dwyieithog, ac o sicrhau y gwneir yn fawr o sgiliau ieithyddol swyddogion.

Mae yna lawer o fanteision i ddrafftio negeseuon dwyieithog ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys:

- o sicrhau arbedion ariannol
- o sicrhau gwell rheolaeth dros amserlen cynhyrchu'r testun dwyieithog
- o cynnig hyblygrwydd i addasu testun ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol
- o cynyddu hyder swyddogion wrth ddefnyddio'r ddwy iaith er mwyn gallu ymateb i negeseuon ar y pryd

## Ond does gen i ddim staff sy'n siarad Cymraeg.

Mae'n bwysig felly cynllunio unrhyw ymgyrchoedd, gynnrych neu wasanaethau newydd ymlaen llaw. Mae'n bosibl wedyn paratoi a sicrhau bod negeseuon dwyieithog yn cael eu creu o flaen llaw. Gall hyn olygu cysylltu â chyfieithydd proffesiynol neu wneud defnydd o wasanaeth prawf ddarllen y Comisiynydd. Mae'n gyfle hefyd i edrych ar recriwtio aelod o staff neu wirfoddolwyr sydd â sgiliau Cymraeg i sicrhau bod y gallu i greu cynnwys dwyieithog yn bodoli yn fewnol.

Sicrhewch fod gennych broses a chynllun mewn lle er mwyn gallu cynnig ymatebion i unrhyw geisiadau neu gwestiynau sy'n eich cyrraedd yn y Gymraeg.

## What is the best way of creating bilingual messages?

The easiest and most cost-effective way of creating short bilingual text for social media is to encourage officers to draft messages bilingually from the outset. This is undoubtedly the best way of ensuring that you do not have to depend on translating everything in order to provide a bilingual service, and that you make the best use of officers' linguistic skills.


There are many advantages to drafting bilingual messages on social media, including:

- o financial savings
- o better control over the schedule for producing bilingual text
- o the ability to adapt text for different audiences
- o developing officers' confidence in using both languages in order to be able to respond to messages instantaneously

## But I don't have any Welsh speaking staff.

It is therefore important to plan any new campaigns, products or services in advance. It will then be possible to prepare and ensure that bilingual messages are created in advance. This may mean contacting a professional translator or using the Commissioner's proofreading service. It is also an opportunity to think about recruiting a member of staff or volunteers with Welsh language skills in order to ensure that you have the internal capacity to create bilingual content.

You should ensure that you have a process and plan in place so that you are able to respond to any Welsh language requests or questions.



Ceir rhagor o wybodaeth am gomisiynu cyfieithydd proffesiynol a'r gwasanaeth prawf ddarllen ar wefan Comisiynydd y Gymraeg [comisiynyddygydraeg.cymru/prawfddarllen](http://comisiynyddygydraeg.cymru/prawfddarllen)

Further information on commissioning a professional translator and the proofreading service is available on the Welsh Language Commissioner's website [welshlanguagecommissioner.wales/proofreading](http://welshlanguagecommissioner.wales/proofreading)

### Beth os ydw i'n rhan o sefydliad mawr sydd â nifer o ganghennau?

Mae'n bosibl bod gennych un ffrwd corfforaethol sy'n cael ei weinyddu gan swyddogion yn y pencadlys a nifer o ffrydiau eraill sy'n cael eu rhedeg gan ganghennau ledled y wlad. Dylid sicrhau bod unrhyw negeseuon corfforaethol yn ddwyieithog, efallai na fydd swyddogion sy'n siarad Cymraeg ar gael ymhob cangen i gynnal ffrydiau dwyieithog ar bob adeg. Gall y pencadlys neu gorff ymbarél cefnogi'r canghennau trwy gynllunio negeseuon o flaen llaw ac i gynorthwyo wrth ymateb i geisiadau. Lle nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, gellid holi a oes gwirfoddolwyr wrth law sy'n gallu siarad Cymraeg ac yn fodlon helpu.

### Pa fath o arddull ysgrifennu sy'n briodol?

Gan fod negeseuon sy'n cael eu cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol yn gwbl gyhoeddus mae'n bwysig bod yr iaith yn gywir ac unrhyw negeseuon wedi eu prawf ddarllen yn ofalus.

Mae'n bwysig i chi ymddangos yn gyfeillgar a phersonol, felly mae defnyddio iaith gyfarwydd a hawdd i'w deall yn holl bwysig, yn enwedig wrth bostio negeseuon. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn creu'r cyfle i sgwrsio, felly mae ymateb i negeseuon mewn iaith lai ffurfiol neu sgwrsiol yn hollol dderbyniol.

Gellid hefyd ystyried manteisio ar natur fer a bachog y cyfrwng ac arbrofi â defnyddio idiomaau, cyfeiriadaeth ddiwylliannol ac efallai iaith fwy tafodieithol neu lafar gan ddibynnu ar y gynulleidfa darged. Byddai hyn yn ffordd wych o godi pontydd rhwng siaradwyr y ddwy iaith a dysgwyr.

### What if I am part of a large organisation with a number of branches?


You may have one corporate feed which is administered by officers at your headquarters and a number of other feeds which are run by branches across the country. You should ensure that any corporate messages are bilingual. Welsh speaking officers may not always be available at every branch to maintain bilingual feeds. The headquarters or umbrella body can support branches by planning messages in advance and helping them respond to requests. Where there are no Welsh speakers available, you could ask whether there are any volunteers who can speak Welsh and would be happy to help.

### What style of writing is appropriate?

Social media posts can be seen by everyone, therefore it is important that the language used is correct and that any posts are proofread carefully.

It is important that you appear friendly and personable, therefore using language which is familiar and user-friendly is essential, especially when posting messages. Social media provides the opportunity to chat, therefore it is acceptable to use less formal or conversational language when responding to messages.

You could also consider taking advantage of the concise and catchy nature of the medium and experimenting by using idioms, cultural references and perhaps more colloquial or spoken language depending on the target audience. This would be a great way of building bridges between Welsh and English speakers and learners.



### A yw'n iawn i ddibynnu ar feddalwedd cyfieithu i greu negeseuon dwyieithog?

Er bod defnydd i'w wneud o gyfieithu awtomatig neu gyfieithu peirianyddol mewn gweithle dwyieithog, ni ellir dibynnu'n llwyr ar gywirdeb testun sy'n cael ei gynhyrchu gan beiriant. Er bod y canlyniadau a gewch o ddefnyddio'r math hwn o feddalwedd yn dda iawn ar y cyfan – ac yn gwella o hyd wrth i'r dechnoleg ddatblygu – nid ydynt yn ddibynadwy bob amser, ac mae'n rhaid sicrhau bod swyddogion yn gwybod am y manteision a'r peryglon o ddefnyddio'r feddalwedd.

Byddwn yn eich cynghori i beidio â dibynnu ar feddalwedd o'r math hwn i gynnig cyfieithiadau hwylus, cyflym. Gellid ei ddefnyddio i roi bras gyfieithiad ond rhaid pwysleisio na ddylid cyhoeddi cyfieithiad a ddarperir gan beiriant heb iddo fod wedi cael ei olygu'n drylwyr. Ni ellir ychwaith ddibynnu ar gyfieithu peirianyddol i ddarparu'r cyfieithiad mwyaf cryno, rhywbeth sy'n berthnasol wrth feddwl am y nifer o lythrennau a ganiateir mewn neges ar Twitter, er enghraifft.

### Oes cymorth i gyfieithu cyfres o negeseuon?

Nid oes rhaid i'r cynnwys fod yn gyfieithiad slafaid o'r Gymraeg i'r Saesneg, yr hyn sy'n bwysig yw bod y negeseuon o'r un safon yn y ddwy iaith. Mae'n arfer da magu perthynas â chyfieithwyr proffesiynol os nad oes sgiliau Cymraeg o fewn y busnes neu sefydliad. Byddai modd hefyd i'r cyfieithwyr gynnig gwasanaeth prawf ddarllen a chynnig adborth ar ymdrechion swyddogion i ddrafftio negeseuon dwyieithog. Mae modd gwneud defnydd o wasanaeth prawf ddarllen y Comisiynydd sy'n gallu cadarnhau a chywiro testun ar gyfer negeseuon. Mae cael tro ar ddrafftio negeseuon dwyieithog yn ffordd wych o ymarfer a gwella sgiliau.

### It is okay to depend on translation software to create bilingual messages?

Although there is a place for automated or machine translation in a bilingual workplace, one cannot depend fully on the accuracy of automated text. Although the results provided by this kind of software are generally very good – and are continually improving as technology develops – they are not always reliable, and officers must be made aware of the advantages and risks involved.

We would advise you not to depend on this kind of software for fast, easy translations. It may be used to provide rough translations but it must be emphasised that you should not post an automated translation without ensuring that it has been thoroughly edited. Neither should you rely on machine translation to provide the most concise translation. This is particularly relevant when considering the number of characters allowed in a tweet, for example.

### Is there help available to translate a series of messages?

The content doesn't have to be a direct translation from Welsh to English. What's important is that both the Welsh and English messages are of the same standard. It is good practice to build a relationship with professional translators if there are no Welsh language skills within the business or organisation. The translators would also be able to offer a proofreading service and provide feedback on officers' efforts to draft bilingual messages. The Commissioner also provides a proofreading service which can check and correct text for messages. Having a go at drafting bilingual messages is an excellent way of practising and improving skills.





### Os ydym yn creu fideo i'w rannu ar gyfryngau cymdeithasol oes angen creu yn ddwyieithog?

Mae'n arfer da i greu fideos yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n bosibl defnyddio is-deitlo – er enghraifft pan fydd cyfraniad Cymraeg, bod yna isdeitlau Saesneg ac yn yr un modd isdeitlau Cymraeg pan fydd y cyfraniad Saesneg. Wrth ffilmio unigolion sy'n medru'r Gymraeg nid oes rheidrwydd gofyn iddynt ail recordio yn Saesneg, dim ond defnyddio isdeitlau Saesneg. Mae modd hefyd defnyddio meddalwedd sy'n eich galluogi i osod is-deitlau yn rhwydd. Mae yna opsiwn am ddim hefyd ar Youtube sydd yn eich galluogi i greu is-deitlau mewn sawl iaith.

### Oes ffordd i ni sicrhau bod ein negeseuon yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac ehangach?


Elfen unigryw ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Twitter, Instagram a Facebook yw'r defnydd o'r hashnod (#). Y bwriad o'i ddefnyddio mewn negeseuon yw i'w gwneud hi'n fwy hwylus i bobl chwilio am bwnc trafod penodol. Mae'n ffordd o ddenu dilynwyr ac i bobl chwilio am bethau penodol a dilyn sgysiaau ehangach ar bynciau. Wrth greu negeseuon, mae gwerth ystyried pa hashnodau fyddai'n fanteisiol i chi ddefnyddio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### If we are creating a video to share on social media does it have to be bilingual?

It is good practice to create videos in Welsh and English, and it is possible to use subtitles – for example, providing English language subtitles for Welsh language contributions and Welsh language subtitles for English language contributions. When filming Welsh speaking individuals, you don't need to ask them to re-record the video in English, just use English subtitles. It is also possible to use software which allows easy subtitling. There is also a free option on YouTube which allows you to create subtitles in several languages.

### Is there a way to ensure that our messages reach new and wider audiences?

A unique aspect of social media, particularly Twitter, Instagram and Facebook, is the use of the hashtag (#) which makes it easier for people to search for a specific topic of discussion. It is used to attract followers and enables people to search for specific things and follow wider discussions on a particular topic. When composing messages, it is worth considering which hashtags would be worth using in Welsh and English.



### Beth am ddolenni at wefannau neu luniau/posteri/GIFs?

Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw luniau neu GIFs sy'n cael eu defnyddio fel rhan o negeseuon hefyd yn ddwyieithog neu'n ddi-iaith. Mae angen cadw mewn cof bod angen i unrhyw ddolenni at wefannau arwain at ochr Gymraeg/Saesneg y wefan honno gan ddibynnu ar iaith y neges.

### Ble mae cael rhagor o wybodaeth dechnegol am ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol?

Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi nodyn cyngor manwl yn y maes hwn, 'Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg'. Rhoddir sylw penodol i wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol yn Rhan 2 y nodyn cyngor hwn ac anogir chi i bori yn y rhan hon o'r ddogfen os ydych yn dymuno manylion pellach am rai o'r themâu a grybwyllir yn y ddogfen hon. Mae'r nodyn cyngor ar gael ar ffurf pdf ar wefan y Comisiynydd neu ar ffurf cyfres o dudalennau gwe sy'n ei gwneud hi'n hwylus i chwilio am neu rannu adrannau perthnasol. Dylid pwysleisio hefyd fod y nodyn cyngor hwn yn mynd i'r afael â phob math o faterion perthnasol cysylltiedig fel defnyddio'r wyddor Gymraeg.

'Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg'  
[comisiynyddgymraeg.cymru/canllawiauhybu](https://comisiynyddgymraeg.cymru/canllawiauhybu)

'Technology, Websites and Software: Welsh Language Considerations'  
[welshlanguagecommissioner.wales/hybuguidelines](https://welshlanguagecommissioner.wales/hybuguidelines)

### What about links to websites or images/posters/GIFs?

It is important to ensure that any images or GIFs used in messages are either bilingual or don't contain any language. Remember, any links to websites need to take the user to the Welsh/English pages of that website, depending on the language of the message.

### Where can you find further technical information on using the Welsh language on social media?

The Commissioner has published a detailed advice note, namely 'Technology, Websites and Software: Welsh Language Considerations'. Part 2 of this advice note refers specifically to websites and social media and you are encouraged to refer to this part of the document should you require further details on some of the themes examined in this document. The advice note is available in pdf format on the Commissioner's website or as a series of web pages which makes it easy to share or search for relevant sections. It should also be emphasised that this advice note also addresses all kinds of related, relevant issues such as using the Welsh alphabet.



Mae defnydd emojis a delweddau hefyd yn helpu gallu cyfathrebu yn weledol yn hytrach na thrwy eiriau yn unig



Using emojis and images also helps with visual communication rather than just using words – Galeri

### Angen cymorth a chyngor pellach ar ddatblygu'r Gymraeg?

Mae modd trafod ffyrdd o ddatblygu'r Gymraeg â staff Comisiynydd y Gymraeg.

Mae Tîm Hybu a Hwyluso'r Comisiynydd yn gallu cynnig cymorth a chyngor ar ddatblygu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat a thrydydd sector.

Gall busnesau ac elusennau asesu eu defnydd presennol o'r Gymraeg ar-lein drwy gwblhau'r holiadur a chreu Cynllun Hybu. Bydd hyn yn gymorth i chi ddatblygu eich gwasanaethau Cymraeg.

Cewch hefyd gymorth ymarferol ar ffurf canllawiau amrywiol ar sut i fynd ati i ddefnyddio'r Gymraeg a thystiolaeth ac ymchwil i ddangos gwerth y Gymraeg.

#### Comisiynydd y Gymraeg

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221

hybu@comisiynyddygymraeg.cymru

comisiynyddygymraeg.cymru

@HybuCymraeg

### Need further support and advice on developing the Welsh language?

You can discuss ways of developing the Welsh language with the Welsh Language Commissioner's staff.

The Commissioner's Promotion and Facilitation Team can offer support and advice on developing and increasing use of the Welsh language in the private and third sectors.

Businesses and charities can assess their current use of the Welsh language online by completing the questionnaire and creating a Promotion Plan. This will help you to develop your Welsh language services.

Various guidance documents also provide practical support on using the Welsh language, and evidence and research shows the value of the Welsh language.

#### Welsh Language Commissioner

Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221

hybu@welshlanguagecommissioner.wales

welshlanguagecommissioner.wales

@HybuCymraeg



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner